

# Gweddï Nadolig 2011

## Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill

Dduw pob gras ac Arglwydd pob gobaith -  
ymdawelwn ger dy fron o ganol sŵn a sylw'r byd,  
gan geisio dy dangnefedd.

Gwyddost am ein dyheadau a'n pryderon,  
ein llawenydd a'n tristwch, a'n hawydd i foli dy enw di.  
Ti yw'r hwn sy'n oleuni mewn byd tywyll  
a gwirionedd mewn cymdeithas dwyllodrus.

Weithiau byddwn yn gweld bywyd fel cylchdro o anobaith,  
a ninnau, heb syniad yn y byd o'r cyfeiriad sy'n briodol i ni.

Byddwn yn wynebu dewisiadau anodd  
ac yn cloffi wrth ystyried yr opsiynnau.

Gwyddom hefyd am brofiadau heb ddewis o gwbl.  
Helpa ni i fod yn gadarnhaol ac i beidio digalonni.  
Diolch am deulu a chyfeillion sy'n gynhaliath ac yn gwmni,  
A gweddiwn am y modd i fod yn ffrindiau da i eraill.

Cydymdeimlwn gyda'r sawl sy'n ddi-waith  
ac yn ddibynnol ar y wladwriaeth am eu cynhaliath.

Bydd eraill yn gorfod brwydro yn erbyn afiechyd  
heb fodd na nerth i ymdopi gyda'i swydd.  
Gwerthfawrogwn mai ffin denau sydd rhwng hapusrwydd a thristwch,  
bodlonrwydd neu'n anfodlonrwydd mewn bywyd,  
yn hunan-gynhaliol neu'n ddibynnol ar rywbeth neu rywun arall.  
Arglwydd, eiriolwn drostynt ger dy fron.

Diolchwn am warineb mewn perthynas a cymdeithas sefydlog,  
am aelwyd ddiogel mewn cymdogaeth beryglus.

Eleni Arglwydd, diolchwn am bob ystafell fyw, sy'n gynnes a chroesawgar,  
ac yn arbennig am y datblygiad newydd yng Nghaerdydd  
sy'n croesawu'r unig a'r bregus.

Gweddiwn y bydd y sawl sy'n gaeth i grafangau pob chwant a blys  
yn darganfod drws gobaith yr Ystafell Fyw,  
ac yn medru ymddiried yn y cyfeillion yno  
fel eu bod yn profi cymdeithas ffydd a thrugaredd nad yw'n barnu eraill.

Diolch am neges y Nadolig sy'n croesawu pawb at ymyl preseb y lloches ddwyfol  
heb osod amodau ac sy'n rhannu cymdeithas trugaredd.

Deuwn Arglwydd i'th addoli di, drwy weld gwerth ym mhawb  
ac i'th garu di drwy garu eraill.

Gwrando arnom, yn enw Iesu'r crud a Iesu'r groes.  
Amen.

**y Parchedig Denzil I John**  
(CADEIRYDD Y CYNGOR A STAFELL FYW CAERDYDD)



cyngor cymru ar  
alcohol a chyffuriau eraill  
the welsh council on  
alcohol and other drugs

[WWW.WELSHCOUNCIL.ORG.UK](http://WWW.WELSHCOUNCIL.ORG.UK)



'STAFELL FYW CAERDYDD  
LIVING ROOM CARDIFF

[WWW.LIVINGROOM-CARDIFF.COM](http://WWW.LIVINGROOM-CARDIFF.COM)